Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

# Cyllid Dysgu Proffesiynol (PLF) Addysg Bellach ym Mlwyddyn Academaidd 2026/27 – Canllawiau a thempledi ar gyfer ceisiadau am gyllid

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 05 Mehefin 2026 |
| **Cyfeirnod:** | Medr/2026/22 |
| **At:** | Benaethiaid sefydliadau addysg bellach (SABau) yng Nghymru<br>Arweinwyr dysgu proffesiynol SABau |
| **Ymateb erbyn:** | Ceisiadau i gael eu cyflwyno erbyn canol dydd ar 3 Gorffennaf 2026 |
| **Rhagor o wybodaeth:** | Karron Williams \| gweithlu@medr.cymru |


**Crynodeb:**

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r dyraniadau cyllid refeniw dysgu proffesiynol (PLF) i sefydliadau addysg bellach yng Nghymru ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27. Mae'r ddogfen yn darparu canllawiau ynghylch gwariant cymwys ac anghymwys a thempledi ar gyfer ceisiadau a chostau.


Ceir rhagor o wybodaeth yn yr Atodiadau canlynol wrth y canllawiau hyn.

**Atodiad A** – Dyraniadau cyllid i bob sefydliad.

**Atodiad B** – Llinellau amser a gofynion adrodd.

**Atodiad C** – Templed ar gyfer ceisiadau.

**Atodiad D** – Templedi ar gyfer adroddiadau


Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Cyflwyniad

1. Mae Adran 5 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Deddf 2022) yn nodi bod rhaid i Medr hybu gwelliant parhaus yn ansawdd addysg drydyddol Gymreig ac, wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, bod rhaid iddo roi sylw:
   a. i bwysigrwydd sicrhau bod aelodau o'r gweithlu addysg drydyddol yn gallu darparu addysg drydyddol o ansawdd uchel, a
   b. i ofynion rhesymol aelodau o'r gweithlu addysg drydyddol am ddatblygiad proffesiynol parhaus.

2. Mae Adran 5 (3) yn nodi bod aelodau o'r gweithlu addysg drydyddol yn golygu:
   a. athrawon personau sy'n cael addysg drydyddol,
   b. personau sy'n darparu cymorth i'r athrawon hynny, ac
   c. personau sy'n darparu cymorth i ddysgwyr i gymryd rhan mewn addysg drydyddol.

3. I roi cymorth i gyflawni'r ddyletswydd hon, mae dysgu proffesiynol wedi'i gynnwys yng Nghynllun Strategol Medr dan Nod Strategol 3.

| **Nod Strategol 3** |
| --- |
| Sicrhau bod dysgwyr yn cael darpariaeth o'r ansawdd gorau mewn system addysg drydyddol sy'n ymegnïo i wella'n barhaus. |
| **Ymrwymiad twf** |
| Cynorthwyo'r gweithlu addysg drydyddol i gael mynediad at ddysgu proffesiynol effeithiol ac archwilio ffyrdd o rannu arfer gorau, gan estyn addysgeg effeithiol ar draws y sector cyfan. |

4. Gall dysgu proffesiynol yn y cyd-destun hwn gynnwys hyfforddiant gorfodol, datblygiad proffesiynol parhaus (DPP), gwybodaeth bynciol a diwydiannol, cymwysterau proffesiynol, ymchwil weithredol ac ymholi proffesiynol.

## Astudiaeth Gwmpasu Dysgu Proffesiynol

5. Yn 2019, fe gomisiynodd Llywodraeth Cymru [Astudiaeth Gwmpasu Dysgu Proffesiynol] i ddeall yn well sut allai dysgu proffesiynol gynorthwyo'r gweithlu ôl-16 i ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r sector. Roedd yr astudiaeth yn cynnwys addysg bellach, dysgu seiliedig-ar-waith ac addysg oedolion yng Nghymru ac fe'i cynhaliwyd gan ICF Consulting Services Ltd, mewn cydweithrediad gydag Arad Research Ltd.

6. Darparodd yr astudiaeth sylfaen dystiolaeth gref, gan adnabod bylchau o ran sgiliau a gwneud cyfres o argymhellion i oleuo polisi yn y dyfodol. Er bod y gwaith hwn wedi bod yn werthfawr, mae wedi canolbwyntio ar AB a sectorau cysylltiedig gan mwyaf.

7. Gan adeiladu ar waith cynharach gan Lywodraeth Cymru a'r gwersi a ysgogwyd trwy'r Gronfa Dysgu Proffesiynol AB, mae Medr wedi comisiynu astudiaeth gwmpasu newydd ar ddysgu proffesiynol ar draws y sector trydyddol.

8. Diben yr astudiaeth hon yw sefydlu sylfaen dystiolaeth gadarn, gychwynnol i oleuo penderfyniadau strategol yn y dyfodol ynghylch dysgu proffesiynol y tu hwnt i AB, gan gynnwys AU. Bydd yr astudiaeth yn archwilio:
    - Gweithgarwch dysgu proffesiynol cyfredol ar draws gwahanol rannau o addysg drydyddol
    - Rhwystrau i gyfranogiad y gweithlu mewn dysgu proffesiynol
    - Achosion o ddyblygu darpariaeth ac effeithlonrwydd
    - Cyfleoedd ar gyfer cydweithio rhwng darparwyr i ddiwallu anghenion cyffredin

9. Bydd yr astudiaeth hefyd yn esgor ar argymhellion ymarferol y gall Medr, darparwyr dysgu a sefydliadau partner eu defnyddio i siapio cymorth dysgu proffesiynol ar gyfer y gweithlu addysg drydyddol yn y dyfodol. Y nod ar y cyfan yw deall darpariaeth dysgu proffesiynol a gofynion yn y dyfodol ar draws y sector.

10. Bydd yr adroddiad ac argymhellion terfynol yn cael eu rhannu gyda'r sector yn hydref 2026.

**Defnyddio'r Gronfa Dysgu Proffesiynol**

11. Mae Medr wedi dyrannu £5 miliwn i gefnogi dysgu a datblygiad proffesiynol y gweithlu addysg bellach. Bydd £4.8m yn cael ei ddyrannu i sefydliadau AB yn seiliedig ar faint y sefydliad fel dirprwy ar gyfer nifer y staff. Mae'r dyraniadau wedi'u nodi yn Atodiad A. Bydd £200,000 yn cael ei ddefnyddio i gefnogi prosiectau cenedlaethol a fydd o fudd i'r sector AB yn ei gyfanrwydd. Mae'r rhain yn cynnwys cyllid grant i'r canlynol:
    - Coleg Sir Gâr i gefnogi ail flwyddyn y Rhwydwaith Dysgu Proffesiynol.
    - Y Panel Ymgynghorwyr Addysg Awyr Agored ar gyfer hyfforddiant i reoli ymweliadau addysgol a gweithgarwch awyr agored.
    - Y Sefydliad Gwaddol Addysgol i hyrwyddo'r Cymrodoriaethau Addysgu Technegol (TTF).
    - Prifysgolion perthnasol yng Nghymru ar gyfer lleoliadau i ymarferwyr AB ar y rhaglenni Arweinyddiaeth ar ffurf graddau Meistr a Doethuriaeth mewn addysg.
    - Colegau Cymru ar gyfer cynhadledd Dysgu ac Addysgu.

12. Mae'r cyllid a ddyrennir gan Medr ar gael gyda'r amodau cyffredinol ar gyfer talu arian a nodir yn Nhelerau ac Amodau Cyllid Medr.

13. Bydd cyllid yn cefnogi dysgu proffesiynol ar gyfer ymarferwyr a staff cymorth dysgu, a gellir ei ddefnyddio i alluogi sefydliadau i ddarparu neu gomisiynu dysgu proffesiynol sy'n cyd-fynd â'r themâu a amlinellir yn y canllawiau hyn.

14. Gellir defnyddio'r cyllid ar gyfer gweithgareddau sy'n adlewyrchu blaenoriaethau unigol pob sefydliad, yn seiliedig ar ei bolisïau ei hun a'r anghenion a adnabuwyd ar gyfer ei staff. Anogir sefydliadau hefyd i ddefnyddio'r cyllid ar gyfer gweithgarwch cydweithredol a gallant ddewis "cyfuno" cyfran o'r cyllid hwn i gefnogi prosiectau cydweithredol.

15. Wrth lunio ceisiadau ar gyfer defnyddio cyllid, rydym yn disgwyl i'r holl sefydliadau ystyried:

- Safonau proffesiynol ar gyfer athrawon AB, ymarferwyr Dysgu Seiliedig-ar-Waith ac ymarferwyr Addysg Oedolion/Addysgwyr Cymru.
- Cydweithio ar draws y sector i wella effeithlonrwydd, cymorth rhwng cymheiriaid a rhannu arfer da.
- Gwersi blaenorol i adeiladu ar y gwaith a gwreiddio'r gwaith a ddatblygwyd mewn blynyddoedd blaenorol.
- Taro cydbwysedd rhwng anghenion dysgu'r sefydliad (DPP) a'r penderfyniadau y mae ymarferwyr yn eu gwneud am eu hanghenion a'u diddordebau dysgu proffesiynol hwy eu hunain.
- Datblygu sgiliau staff i gefnogi anghenion cymhleth a blaenoriaethau o ran sgiliau.
- Lle mae sefydliadau'n gwneud dysgu proffesiynol sy'n ymwneud â darpariaeth ddigidol, gofynnwn iddynt ddefnyddio'r Safonau Proffesiynol Digidol a ddatblygwyd gan Jisc fel rhan o'n gwaith Digidol 2030.

16. Rhaid i geisiadau ganolbwyntio ar y themâu cymwys a restrir isod. Mae'r rhestr isod yn cynnwys themâu gorfodol y mae'n **rhaid** eu cynnwys a themâu dewisol.

**Themâu gorfodol**

- Datblygu neu gryfhau dulliau addysgu dwyieithog a/neu gefnogi staff i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer cyflwyno.
- Dysgu proffesiynol sy'n ofynnol i greu ac ategu diwylliant gwrth-hiliol.

**Themâu dewisol**

- Dysgu digidol.
- Strategaethau dysgu ac addysgu, gan gynnwys dysgu gwahaniaethol.
- Llythrennedd a rhifedd (gan gynnwys ESOL).
- Gwella sgiliau diwydiannol sy'n gysylltiedig ag anghenion y farchnad lafur (gan gynnwys capasiti i ddarparu cymwysterau lefel uwch).
- Cryfhau addysgeg Safon Uwch a galwedigaethol.
- Ymchwil weithredol.
- Dysgu proffesiynol i staff addysgu a chymorth arbenigol ar gyfer dysgwyr ag anghenion cymhleth.
- Darparu gweithgareddau sydd wedi'u bwriadu i gyflymu a meithrin arbenigedd staff a fydd yn cynyddu gwybodaeth a phrofiad dysgu'r dysgwr.

**Bydd disgwyl i sefydliadau adrodd yn erbyn pob gweithgaredd fel rhan o'r gofynion adrodd interim a therfynol.**

**Materion allweddol a dulliau gweithio**

17. Wrth baratoi ceisiadau, dylai sefydliadau ystyried polisïau trawsbynciol eraill a ffyrdd eraill o weithio. Rhaid i'r rhain gynnwys:
    - **Hybu cydweithio gydag undebau llafur**
      Disgwylir i SABau ddatblygu eu cynigion mewn cydweithrediad gydag undebau llafur, i sicrhau bod eu hundebau llafur cydnabyddedig yn cael eu cynnwys yn llawn wrth gynllunio newidiadau a fydd yn effeithio ar staff, gwneud penderfyniadau yn eu cylch, a'u rhoi ar waith.

- **Cymru Wrth-hiliol**
  Dylai unigolion a sefydliadau gymryd cyfrifoldeb am greu diwylliant gwrth-hiliol ac ysgogi newid cadarnhaol parhaol ac, wrth wneud hynny, byddem yn disgwyl i chi ystyried y dysgu proffesiynol sy'n ofynnol yn eich sefydliad i helpu i wireddu'r uchelgais i greu Cymru Wrth-hiliol erbyn 2030.
- **Y Gymraeg**
  Mae gan Medr rôl i gyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr erbyn 2050 ac mae dyletswydd arno i hybu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg. Rydym felly'n disgwyl i chi ystyried hyn wrth baratoi eich ceisiadau.

### Gweithgareddau cymwys

18. Gellir defnyddio cyllid i wneud y canlynol:
    - Gwneud cymwysterau addysgu achrededig.
    - Gwneud modiwlau neu unedau hyfforddi penodol i wella sgiliau addysgu (e.e. modiwlau MA).
    - Diweddaru a gwella sgiliau diwydiannol/galwedigaethol staff.
    - Prynu hyfforddiant pwrpasol, gan gynnwys costau hyfforddwyr neu hwyluswyr allanol.
    - Prynu neu ddatblygu pecynnau e-ddysgu.
    - Ariannu costau cefnlenwi ar gyfer staff sy'n gwneud dysgu proffesiynol.
    - Cynnal ymchwil gan gynnwys ymchwil weithredol.
    - Dylunio a darparu dysgu proffesiynol a datblygiad arweinwyr mewn modd cydweithredol, gan gynnwys hyfforddiant ar y cyd yn rhanbarthol.
    - Datblygu adnoddau a chanllawiau dysgu proffesiynol dwyieithog er budd y sector cyfan, gan gynnwys mewn dysgu seiliedig-ar-waith ac addysg oedolion.
    - Dysgu proffesiynol i staff addysgu a chymorth arbenigol ar gyfer dysgwyr ag anghenion cymhleth.
    - Darparu gweithgareddau sydd wedi'u bwriadu i gyflymu a meithrin arbenigedd staff a fydd yn cynyddu gwybodaeth a phrofiad dysgu'r dysgwr.

19. Ni ellir defnyddio'r cyllid i brynu offer na meddalwedd cyfalaf nac i ddatblygu cyrsiau ar gyfer dysgwyr.

20. Os ydych yn ansicr a yw eich defnydd arfaethedig o'r cyllid yn gymwys cysylltwch â gweithlu@medr.cymru.

### Meini prawf gwerthuso

21. Rhaid i gyni gion wneud y canlynol:
    - Darparu dysgu proffesiynol yn unol â'r Safonau proffesiynol ar gyfer athrawon AB, ymarferwyr Dysgu Seiliedig-ar-Waith ac ymarferwyr Addysg Oedolion/Addysgwyr Cymru
    - Adnabod manteision eglur a dangos sut y bydd effaith yn cael ei gwerthuso.
    - Cyd-fynd â'r themâu a restrir yn y canllawiau hyn.
    - Cynnwys gweithgareddau sydd o gymorth i ddatblygu'r Gymraeg.
    - Dangos dysgu proffesiynol a fydd yn creu ac yn cefnogi diwylliant gwrth-hiliol.

- Dangos rhesymeg glir sy’n adlewyrchu’r anghenion dysgu proffesiynol a adnabuwyd ar gyfer staff y sefydliad.

### Sut i ymgeisio

22. Mae’n ofynnol i bob sefydliad gwblhau a llofnodi copi o'r ffurflen yn Atodiad C a’i ddychwelyd i:
    - Gadarnhau’n ffurfiol bod eich sefydliad yn derbyn y cyllid.
    - Enwebu unigolyn priodol yn eich sefydliad fel y cyswllt arweiniol mewn perthynas â’r cyllid hwn.
    - Amlinellu’n fras beth yw eich bwriadau ar gyfer defnyddio’r cyllid hwn.

23. Dylai ffurflenni wedi’u llofnodi gael eu dychwelyd i gweithlu@medr.cymru erbyn 3 Gorffennaf 2026.

24. Rhowch wybod i Medr ar y cyfle cynharaf os ydych yn rhagweld na fyddwch yn gallu gwario eich dyraniad yn llawn. Os caiff cyllid ei ryddhau gan sefydliadau unigol, bydd Medr yn ystyried a yw’n ddichonadwy ailddyrannu’r cyllid hwn.

### Monitro a thalu’r cyllid

25. Yn amodol ar ddychwelyd **Atodiad C**, bydd taliad interim (65% o ddyraniad cyllid eich sefydliad) yn cael ei amserlennu yn ystod mis Mawrth 2027.

26. Bydd hi’n ofynnol i chi ddarparu gwybodaeth am wariant erbyn 31 Gorffennaf 2027 i ryddhau’r taliad terfynol. Dim ond yn erbyn gwariant gwirioneddol a ysgwyddwyd erbyn 31 Gorffennaf 2027 y dylech hawlio. Bydd swm y taliad terfynol hwn yn cael ei addasu yn unol â’r gwariant gwirioneddol a ysgwyddwyd, hyd at gyfanswm gwerth dyraniad eich sefydliad.

27. Bydd templedi ar gyfer adroddiadau interim a therfynol ynghyd â gwybodaeth am wariant ar ddiwedd y flwyddyn yn cael eu hychwanegu fel **Atodiad D**. Bydd arweinwyr cyllid a enwebwyd yn cael eu hysbysu pan fo’r ffurflenni hyn ar gael.

28. Mae cadarnhau’r dyraniad yn amodol ar gymeradwyo gweithgareddau gan Medr.

### Rhagor o wybodaeth

29. Dylai unrhyw ymholiadau ynghylch y canllawiau hyn a dogfennaeth ategol gael eu cyfeirio at Karron Williams yn gweithlu@medr.cymru.

## Dyraniadau

Bydd £4.8m yn cael ei ddyrannu yn seiliedig ar faint pob sefydliad fel dirprwy ar gyfer nifer y staff rheng flaen. Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm dyraniadau ar gyfer pob sefydliad.

| **Sefydliad AB** | **Dyraniad** |
|---|---|
| Addysg Oedolion Cymru | £91,307 |
| Coleg Penybont | £238,474 |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | £582,399 |
| Coleg Cambria | £581,872 |
| Coleg Gwent | £669,526 |
| Coleg Sir Gâr | £325,941 |
| Coleg y Cymoedd | £498,559 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | £407,650 |
| Grŵp Llandrillo Menai | £570,722 |
| Grŵp NPTC Group | £384,300 |
| Coleg Sir Benfro | £188,906 |
| Coleg Catholig Dewi Sant | £108,545 |
| Y Coleg Merthyr Tudful | £151,799 |
| **Cyfanswm** | **£4,800,000** |

## Llinellau amser a gofynion adrodd

| | |
|---|---|
| Mai 2026 | Cyhoeddi'r canllawiau |
| Mehefin 2026 | Anfon llythyrau dyfarnu grantiau – Dyraniad cyllid ac amodau a thelerau wedi'u cynnwys ym mhrif lythyr cynnig grant y SAB. |
| 3 Gorffennaf 2026 | Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau gan sefydliadau AB. |
| Yn gynnar ym mis Gorffennaf 2026 | Gwerthuso ceisiadau; gellir gofyn am ragor o wybodaeth gan sefydliadau yn ystod y cyfnod hwn. |
| Canol mis Gorffennaf 2026 | Cadarnhau canlyniadau'r gwerthusiad. |
| Medi 2026 ymlaen | Darparu rhaglenni. |
| Mawrth 2027 | Cyflwyno adroddiadau interim |
| 31 Gorffennaf 2027 | Cwblhau prosiectau – Bydd hi'n ofynnol cyflwyno adroddiadau terfynol prosiectau, adnoddau dwyieithog a ddatblygwyd os yn berthnasol, a thystysgrif o wariant ar gyfer y grant llawn.<br><br>Dylai'r adroddiad terfynol fod yn gryno a chynnwys gwybodaeth am y gweithgareddau a ddarparwyd ochr yn ochr â gwerthusiad o ganlyniadau a manteision y gweithgareddau. Bydd templed ar gyfer adroddiad yn cael ei ychwanegu fel **Atodiad D**. |

**Llinellau amser taliadau**

- Mawrth 2027 yn dilyn cyflwyno'r adroddiad interim.
- 31 Gorffennaf 2027 yn dilyn cyflwyno'r adroddiad terfynol, adnoddau dwyieithog os yn berthnasol, a thystysgrif gwariant.

## Medr/2026/22: Atodiad C

# Templed ar gyfer Ceisiadau

Cyflwynwch y ffurflen wedi'i chwblhau mewn fformat Word i gweithlu@medr.cymru **erbyn canol dydd ar 3 Gorffennaf 2026.**

**Adran 1: Derbyn y cyllid**

| **Manylion derbynnydd y cyllid:** | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | |
| **Cyswllt arweiniol a enwebwyd ar gyfer y cyllid hwn:** | |
| **Cyfeiriad e-bost:** | |
| **Cyfanswm dyraniad £** | |

Rydym yn datgan ein bod wedi ein hawdurdodi'n briodol i dderbyn y grant hwn a'r amodau sy'n gysylltiedig â'r Cyllid **ac rydym yn cadarnhau:**

- Bod yr holl wariant arfaethedig yn ateb y gofynion o ran cymhwystra a nodir yn y canllawiau ar gyfer y grant hwn.
- Bod staff wedi bod yn rhan o adnabod yr angen a datblygu'r cynigion.
- Bod y cynigion yn cyd-fynd â'r Safonau proffesiynol ar gyfer athrawon AB, ymarferwyr Dysgu Seiliedig-ar-Waith ac ymarferwyr Addysg Oedolion/Addysgwyr Cymru

| | |
|---|---|
| Llofnodwr awdurdodedig ar ran [Sefydliad] | **Llofnod 1** |
| | **Enw** |
| | **Teitl Swydd** |

| | |
|---|---|
| Llofnodwr awdurdodedig ar ran [Sefydliad] | **Llofnod 2** |
| | **Enw** |
| | **Teitl Swydd** |

| **Dyddiad derbyn:** | |
|---|---|

Byddwn yn storio ac yn defnyddio eich gwybodaeth er mwyn cysylltu â chi mewn perthynas â'r cyllid hwn. Cyfeiriwch at Bolisi Preifatrwydd Medr i gael gwybodaeth am sut yr ydym yn defnyddio data personol.

**Adran 2: Defnydd bwriadedig o'r cyllid**

Gan gyfeirio at Ganllawiau Cyllid Dysgu Proffesiynol 2026/27 ynghylch gwariant cymwys, darparwch restr o weithgareddau/ymyriadau. Ar y cam hwn, gallwch ddynodi swm cyllid neu ganran cyllid a amcangyfrifir yn erbyn pob categori. Gofynnir am fanylion eitemau unigol o wariant ar ddiwedd cyfnod y grant, fel rhan o hawliad terfynol eich sefydliad. Ehangwch a/neu ychwanegwch ragor o resi yn ôl yr angen.

| **Gweithgaredd** | |
|---|---|
| **Angen a adnabuwyd** | |
| **Canlyniadau a manteision disgwyliedig** | |
| **Sut fydd hyn yn cael ei werthuso** | |
| **Sylwadau ychwanegol** | |
| **Cost a amcangyfrifir £** | |

| **Gweithgaredd** | |
|---|---|
| **Angen a adnabuwyd** | |
| **Canlyniadau a manteision disgwyliedig** | |
| **Sut fydd hyn yn cael ei werthuso** | |
| **Sylwadau ychwanegol** | |
| **Cost a amcangyfrifir £** | |

| **Gweithgaredd** | |
|---|---|
| **Angen a adnabuwyd** | |
| **Canlyniadau a manteision disgwyliedig** | |
| **Sut fydd hyn yn cael ei werthuso** | |
| **Sylwadau ychwanegol** | |
| **Cost a amcangyfrifir £** | |

| **Gweithgaredd** | |
|---|---|
| **Angen a adnabuwyd** | |
| **Canlyniadau a manteision disgwyliedig** | |
| **Sut fydd hyn yn cael ei werthuso** | |

| | |
|---|---|
| **Sylwadau ychwanegol** | |
| **Cost a amcangyfrifir £** | |

| | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | |
| **Angen a adnabuwyd** | |
| **Canlyniadau a manteision disgwyliedig** | |
| **Sut fydd hyn yn cael ei werthuso** | |
| **Sylwadau ychwanegol** | |
| **Cost a amcangyfrifir £** | |

| |
|---|
| **Amlinellwch sut y byddwch yn lledaenu'r wybodaeth a'r gwersi o'ch gweithgareddau er mwyn iddynt gael eu rhannu a/neu eu mabwysiadu mewn sefydliadau eraill ar draws y sector.**<br>*Gallai hyn gynnwys:*<br>• *Canlyniadau unrhyw ymchwil weithredol.*<br>• *Datblygu adnoddau.*<br>• *Gwerthusiadau.* |
| |

## Templedi ar gyfer ffurflenni hawlio ac adroddiadau

Bydd yr atodiad hwn yn cael ei ychwanegu yn gynnar yn 2027 cyn bod rhaid cyflwyno adroddiadau Interim.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**